PWYLLGOR PENODI B

Dydd Gwener, 1 Chwefror 2019

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd L.M. Stephens (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
L.M. Stephens, F. Akhtar (yn lle R. James), H.A.L. Evans (yn lle E. Dole), L.D. Evans, W.T. Evans, P.M. Hughes (yn lle J.A. Davies), J.D. James (yn lle D.C. Evans), J.G. Prosser, G. Thomas a J.E. Williams (yn lle C.A. Campbell)

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
M. James, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
D. Richards, Rheolwr Prosiectau Adnoddau Dynol;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin: 2.00 pm - 3.45 pm

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C. Campbell, J. Davies, E. Dole, D.C. Evans a D.M. Jenkins.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. COFNODION - 12 GORFFENNAF 2018

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2018 yn gofnod cywir.

4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf sef gwybodaeth ynghylch ymgeiswyr oedd yn cynnig am swydd gan yr Awdurdod.

5. NODIADAU GWEITHREDU'R PANEL RHESTR FER - 11 TACHWEDD 2019

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Panel Rhestr Fer oedd wedi ei gynnal ar 11 Ionawr 2019.

6. DERBYN CYFLWYNIADAU A CHYFWELD YR YMGEISWYR AR YRHESTR FER AR GYFER SWYDD PENNAETH CARTREFI A CHYMUNEDAU MWY DIOGELAC YSTYRIED GWNEUD PENODIAD

Yn sgil gweithredu prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 4 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod, gan y byddai'r drafodaeth yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol.**

Amlinellodd y Cadeirydd y broses ddethol hyd yn hyn a'r drefn a awgrymwyd ar gyfer y cyfarfod. Nododd y Pwyllgor fod nifer yr ymgeiswyr a gyflwynwyd am gyfweliad y diwrnod hwnnw wedi gostwng i ddau yn dilyn canlyniadau proses y Ganolfan Asesu.

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y ddau ymgeisydd oedd yn weddill ar y rhestr fer, a chafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau.

Ar ôl i'r cyflwyniadau a'r cyfweliadau orffen cafodd y Pwyllgor adborth gan y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad), a oedd yn cynnwys manylion y broses asesu a chasgliadau'r broses honno.

PENDERFYNWYD penodi Mr J. Morgan yn Bennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel.

[Galwyd Mr. J. Morgan yn ôl i'r cyfarfod, a dywedodd ei fod yn derbyn y swydd.]

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**